Ombwdsmon
OMBWDSMON GWASANAETHAU CYHOEDDUS CYMRU

# Ymchwiliadau ar ei Liwt ei Hun

Meini Prawf ar gyfer Ymchwiliad

## Ymchwiliad Ehangach

1. Dylai fod tystiolaeth ddigonol ar gael er mwyn dangos yr angen i gychwyn ymchwiliad ehangach 'ar ei liwt ei hun'.

2. Gall tystiolaeth:
   - Awgrymu y bu camweinyddiaeth systemig/methiant yn y gwasanaeth
   - Dangos bod camweinyddu systemig/methiant yn y gwasanaeth yn bodoli
   - Dangos bod potensial ar gyfer camweinyddu systemig/methiant yn y gwasanaeth
   - Awgrymu y gall y camweinyddu neu fethiant yn y gwasanaeth a nodwyd fod yn fwy eang a systemig.

3. Gall y dystiolaeth fod oddi wrth:
   - Yr achwynydd a/neu'r corff y cwynir amdano
   - Cofnodion cwynion yr Ombwdsmon
   - Tyst/tystion
   - Darparwyr gwasanaethau cyhoeddus eraill, sefydliadau'r trydydd sector a thrydydd parti arall

4. Mae'r dystiolaeth yn cael ei hasesu er mwyn sefydlu a yw'r meini prawf i gychwyn ymchwiliad yn cael eu cwrdd, gan gynnwys:
   - a yw'r mater o fudd i'r cyhoedd
   - a oes amheuaeth rhesymol bod camweinyddu systemig a all achosi unrhyw unigolyn i brofi anghyfiawnder neu galedi
   - a yw'r pryderon a nodwyd yn rhai a fyddai'n effeithio ar grwpiau eang o ddinasyddion neu unigolion, yn arbennig felly os ydyn nhw yn fregus neu wedi cael eu hanfanteisio efallai (er enghraifft, unigolyn neu grŵp o unigolion a fyddai'n cael anhawster i wneud cwyn) ac sy'n ymddangos yn debygol o brofi anghyfiawnder neu galedi o ganlyniad i'r mater sy'n cael ei ystyried ar gyfer ymchwiliad.
   - grym y dystiolaeth
   - grym perswâd y dystiolaeth

5. Os yw'r Ombwdsmon yn ystyried bod y meini prawf uchod yn cael eu cwrdd, bydd ymarfer ymgynghorol er mwyn ceisio cael barn ynglŷn â gwerth ymchwilio, neu a yw sefydliadau eraill mewn sefyllfa well i ymchwilio.

## Ymchwiliad Estynedig

6. Pan mae'r Ombwdsmon eisoes wedi dechrau ymchwiliad i gŵyn ac mae ef/hi yn dymuno dechrau ymchwiliad ar ei liwt ei hun ynglŷn â materion sydd â chysylltiad sylweddol â'r mater sydd eisoes yn cael ei ymchwilio, bydd ef/hi yn dechrau ymchwiliad estynedig ar ei liwt ei hun.

7. Gellir cynnal ymchwiliad estynedig lle mae cwyn ynglŷn ag:
   - un elfen o wasanaeth, a/neu
   - ynglŷn ag un darparwr gwasanaeth

   yn gysylltiedig yn agos â

   - digwyddiad posibl arall o fethiant yn y gwasanaeth, a/neu
   - darparwr gwasanaeth arall sy'n gysylltiedig.

8. Os yw'r meini prawf uchod yn cael eu cwrdd, bydd darparwr/darparwyr y gwasanaeth a'r achwynydd yn cael eu hysbysu ynglŷn â'r penderfyniad i ymestyn yr ymchwiliad. Bydd y partïon sydd ynghlwm yn cael y cyfle i gyflwyno sylwadau a thystiolaeth fel rhan o'r broses ymchwilio. Os yw'r ymchwiliad estynedig yn ymwneud â gwasanaethau iechyd, bydd yr achwynydd yn cael y cyfle i symud y mater ymlaen o dan reoliadau 'Gweithio i Wella' fel dewis amgen, os ydyn nhw'n dymuno hynny.


## Sut i gysylltu â ni

Ffôn 0300 790 0203

E-bost holwch@ombwdsmon.cymru

Ewch i'r wefan www.ombwdsmon.cymru

Ysgrifennwch at: Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru, 1 Ffordd yr Hen Gae, Pencoed, CF35 5LJ

Gallwch hefyd ein dilyn ar Twitter: @OmbudsmanWales



Gorffennaf 2019

Argraffwyd ar bapur wedi ei ailgylrchu 100%